



**DINAS A SIR ABERTAW**  
**CITY AND COUNTY OF SWANSEA**

Enw	
Cyfeiriad	
Cyfeirnod Treth y Cyngor	
Rhif ffôn	
e-bost	

**Cais i Ddiystyru Gostyngiad Treth y Cyngor lle bo Person yn Ofalwr (Categori A)**

Mae'r gostyngiad i'r rhai sy'n darparu gofal a/neu gefnogaeth i berson arall nad yw'n berthynas anghymwys y person hwnnw h.y. priod neu blentyn dan 18 oed.

**Golyga hyn na allwch wneud cais os ydych chi'n gofalu am eich partner/gŵr/gwraig neu am blentyn dan 18 oed.**

Caiff y gofalwr ei ddiystyru am ostyngiad os bydd yr amodau canlynol yn cael eu bodloni:

- Mae'r person yn cael ei gyflogi gan elusen neu gorff perthnasol; neu'n cael ei gyflogi gan y person/bobl sy'n derbyn gofal a'i fod wedi'i gyflwyno iddynt gan gorff perthnasol.
- Mae'r person wedi'i gyflogi i ddarparu gofal am o leiaf 24 awr bob wythnos.
- Nid yw ei dâl yn fwy na £44.00 yr wythnos.
- Mae'n byw yn yr eiddo, a ddarperir gan y cyflogwr er mwyn iddo berfformio'i ddyletswyddau'n well yn ei swydd.

**Dylai'r person sy'n gyfrifol am dalu treth y cyngor gwblhau'r manylion isod.**

A yw'r gofalwr yn breswlydd yn yr un cartref â'r person sy'n derbyn gofal?.....Ydy/Nac ydy

Os ydy, o ba ddyddiad?.....

Enw'r ymgeisydd (y person sy'n gyfrifol am dalu)  
.....

Cyfeiriad yr ymgeisydd.....

Sawl oedolyn 18+ oed sy'n byw yn yr eiddo?.....

Enw'r person sy'n darparu'r gofal.....

A yw'r cyflogwr yn darparu llety i'r gofalwr er mwyn iddo berfformio'i ddyletswyddau'n well?.....Ydy/nac ydy

Enw a chyfeiriad y cyflogwr .....

.....  
Os taw'r cyflogwr yw'r person sy'n derbyn gofal, rhwch enw a chyfeiriad y corff a gyflwynodd y gofalwr:.....  
.....

Nifer yr oriau a weithir bob wythnos gan y gofalwr dan y contract cyflogaeth .....

Faint telir y gofalwr bob wythnos?.....  
Nodwch brawf incwm - naill ai'r 4 slip cyflog wythnosol diwethaf neu'r 2 slip talu misol diwethaf os telir yn fisol.

### **Datganiad**

Rwy'n datgan bod yr wybodaeth a roddwyd gennyf, hyd eithaf fy ngwybodaeth a'm cred, yn gyflawn ac yn gywir. Rwy'n deall ei bod yn ofynnol i mi hysbysu'r cyngor o fewn 21 diwrnod am unrhyw newidiadau mewn amgylchiadau sy'n effeithio ar fy hawl i gael gostyngiad neu fy eithrio rhag talu, a gall methu â gwneud hyn arwain at ddirwy neu gosb.

### **Rhybudd Preifatrwydd**

Cyngor Abertawe yw'r rheolwr data ar gyfer yr wybodaeth bersonol rydych chi'n ei darparu ar y ffurflen hon. Rydym yn casglu'r wybodaeth hon fel rhan o'n rhwymedigaeth o dan Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992. Bydd eich gwybodaeth yn cael ei defnyddio i'n helpu ni i gyflawni'n rhwymedigaeth gyfreithiol ac ni chaiff ei defnyddio at unrhyw ddiben arall. Ni fyddwn yn rhannu'ch data ag unrhyw drydydd parti oni bai fod y gyfraith yn gofyn neu'n caniatáu i ni wneud hynny.

Mae cyfraith diogelu data'n disgrifio'r sail gyfreithiol ar gyfer prosesu eich data yn ôl yr angen er mwyn cydymffurfio â rhwymedigaeth gyfreithiol. Am fwy o wybodaeth am sut mae Cyngor Abertawe'n defnyddio'ch data personol, gan gynnwys eich hawliau fel testun data, gweler ein hysbysiad preifatrwydd corfforaethol ar ein gwefan.

**Llofnod:**.....**Dyddiad**.....

**Enw Llawn (LLYTHRENNAU BRAS)**.....

Dychwelwch y ffurflen i'r cyfeiriad isod.

Adran Gyllid/Finance Department  
Canolfan Ddinesig, Abertawe SA1 3SN/Civic Centre, Swansea SA1 3SN  
Ffôn/Telephone: (01792) 635382 Ffacsimili/Facsimile (01792 635895)  
[www.abertawe.gov.uk/counciltax](http://www.abertawe.gov.uk/counciltax) e-bost/e-mail [trethycyngor@abertawe.gov.uk](mailto:trethycyngor@abertawe.gov.uk)